

## Perchennog / Preswlydd

**Gofynnwch am: / Please ask for:** John Galvin

**Fy Nghyf / My Ref:**  
P058/JG

**Eich Cyf / Your Ref:**

**Dyddiad / Date:**  
6 Mehefin 2018

Annwyl Syr/Fadam

### **LLWYBRAU DIOGEL YN Y GYMUNED – TONYPANDY PARC GELLIFAELOG, TONYPANDY**

Yn rhan o'r newidiadau i'r Ddarpariaeth Addysg yn Nhonypandy, cafodd Cynllun Llwybrau Diogel yn y Gymuned ei ddatblygu er mwyn bod yn gymorth i'r sawl sy'n teithio i'r ysgol newydd. Mae'r cynigion yn ymwneud â Pharc Gellifaelog yn cynnwys cyflwyno terfyn cyflymder 20mya, Cyfyngiadau Aros i atal parcio rhwystrol, estyniad i'r Ffordd glir bresennol, a gwaith gwella i'w chyffordd â'r A4119 er mwyn cynyddu capasiti.

Mae manylion y cynigion ar y llun amgaeedig, neu mae modd eu gweld ar [www.rctcbc.gov.uk/traffig](http://www.rctcbc.gov.uk/traffig)

Mae croeso i chi anfon eich sylwadau aton ni ynglŷn â'r cynnig yma. Er hwylustod, mae ffurflen ac amlen barod ynghlwm wrth y llythyr yma. Fel arall, efallai yr hoffech chi ymateb drwy anfon neges ebost: [gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk](mailto:gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk). Anfonwch eich sylwadau aton ni erbyn dydd lau 27 Mehefin 2018.

Mae'ch sylwadau chi'n bwysig i ni a byddan nhw o gymorth i'r Cyngor wrth i ni ddod i benderfyniad. Bydd unrhyw sylwadau sy'n dod i law yn ein helpu ni i benderfynu a fydd eisiau gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion. Byddwn ni'n ystyried yr holl sylwadau ynglŷn â'r cynllun, ond, fydd dim ymateb ffurfiol iddyn nhw yn ystod y cyfnod yma.

Rydw i'n gobeithio y bydd yr uchod o gymorth. Ond, os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

John Galvin  
Technegydd Materion Traffig - Uned Rheoli Traffig

**Tŷ Sardis/Sardis House**  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU


Ffôn/Tel: 01443 425001  
Ffacs/Fax: 01443 490414

**Chris Lee C.P.F.A**

Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

### **Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.  
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



Owner / Occupier

**Please Ask For/Gofynnwch Am:** John Galvin

**Fy Nghyf/ My Ref:**  
P058/JG

**Eich Cyf/ Your Ref:**

**Dyddiad / Date :**  
6th June 2018

Dear Sir / Madam

**TONYPANDY SAFE ROUTES IN THE COMMUNITY  
PARC GELLIFAELOG, TONYPANDY**

As part of the changes to Education Provision in Tonypany, a Safe Routes in the Community Scheme has been developed in order to assist those travelling to the new school. Proposals relating to Parc Gellifaelog include introducing a 20mph speed limit, Waiting Restrictions to prevent obstructive parking, an extension to an existing Clearway and an upgrade to the junction with the A4119 to increase capacity.

Details of the proposals are shown on the attached drawing P058-01 and may also be viewed at [www.rctcbc.gov.uk/traffic](http://www.rctcbc.gov.uk/traffic)

I shall be pleased to receive your observations on these proposals and for your convenience, a pro forma and postage paid addressed envelope is enclosed. Alternatively you may wish to respond by e-mail to; [trafficservices@rctcbc.gov.uk](mailto:trafficservices@rctcbc.gov.uk) Responses should be returned with your observations by 27 June 2018.

Your comments are important to us and will help the Council in its decision making process. Any comments received will help us decide whether to make changes to the proposals and all observations relating to the scheme will be taken into consideration, however the Council will make no formal response to your comments at this stage.

I trust the above is of assistance, however if you require any further information please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely

John Galvin  
Traffic Technician, Traffic Services

**Tŷ Sardis/Sardis House**  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001  
Ffacs/Fax: 01443 490414

**Chris Lee C.P.F.A**

Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.  
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

